

# Creu Cymru oed gyfeillgar



Creu Cymru oed gyfeillgar

## Gweledigaeth Age Cymru ar gyfer Llywodraeth nesaf y DU

**Gweledigaeth Age Cymru yw Cymru sy'n gyfeillgar i oed, lle mae pawb yn byw'n dda am gyfnod hwy, yn byw'n ddiogel, heb wahaniaethu ac yn ymwneud yn weithredol â'u cymuned. Ond gyda'r Etholiad Cyffredinol hwn, y bobl hynny sydd bellaf oddi wrth fyw bywyd da yn hwyrach yn eu hoes, heddiw, yw ein pryder, yn fwy na dim.**

Mae gwahaniaethau mawr ymysg y boblogaeth hŷn, gyda rhai yn llawer iawn mwy lwcus a mwy gwydn nag eraill. Ar hyn o bryd, gall bywyd yn aml fod yn gyfyngedig ac yn ddigalon i'r bobl sydd yn llai ffodus, a nhw yw'r bobl hŷn y dylem fod yn poeni amdanynt fwyaf.

Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol hwn, rydym eisieu gweld pob plaid wleidyddol yn cyflwyno polisïau sy'n helpu'r boblogaeth hŷn, y rheiny sydd fwyaf mewn angen, gyda'r nod o alluogi mwy o bobl i fwynhau bywyd mwy llawn, diogel ac urddasol yn hwyrach yn eu hoes.

Mae nifer o'r prif feysydd sy'n cael effaith ar bobl hŷn Cymru, fel gwasanaethau iechyd, trafniadaeth a thai wedi eu datganoli i Gymru. Ein blaenoriaeth ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2019 yw canolbwyntio ar faterion nad ydynt wedi eu datganoli ac sy'n cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU.

Am gyfeiriadau, ewch i  
[www.agecymru.org.uk/election](http://www.agecymru.org.uk/election)

### Dilynwch ni ar

facebook.com/agecymru

twitter.com/agecymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni Cyfyngedig drwy warant ac wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa Llawr Gwaelod, T Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2019

Yng Nghymru mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU, gyda 1 mewn 5 o'r boblogaeth yn 65 oed neu hŷn. Gwyddom y canlynol am eu sefyllfaoedd

- gall arian fod yn brin: mae 120,000 o bensiynwyr Cymru yn byw mewn tloidi
- amcangyfrifir bod 56,000 o gartrefi yng Nghymru gyda pherson hŷn yn byw ynddynt wedi profi tloidi tanwydd yn 2017-18
- mae nifer ohonynt yn poeni am eu hiechyd: mae 43% o bobl sy'n 65 oed a hŷn yng Nghymru yn dweud bod eu hiechyd yn weddol neu'n wael
- nid oes gan nifer ohonynt rwydwaith cymdeithasol cryf: adroddodd 220,000 o bobl hŷn yng Nghymru eu bod wedi teimlo'n unig yn hwyrach yn eu hoes

---

# Cynhwysiant - ymrwymïadau i'r rheiny sydd wedi eu hanghofio a'u hanwybyddu

---

- roedd llai na 50% o bobl 75 oed a hÿn yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn 2018-19
- ers 2015, mae 43% o ganghennau banc Cymru wedi cau

## Rhagdybiaethau ar sail oed

Mae gwahaniaethu ar sail oed yn y farchnad lafur yn gyffredin iawn, a hyd heddiw, mae gormod o enghreifftiau o derfynau oed hÿn annheg, ar sail rhagdybiaethau hen ffasiwn am fywydau pobl hÿn neu weithiau, maent er mwyn hwylustod gweinyddol.


## Pobl hÿn nad ydynt ar-lein

Wrth inni nesáu at fod yn oes ble mae darpariaeth yn 'ddigidol yn ddiodyn', mae risg cynyddol bod pobl hÿn nad ydynt ar-lein yn profi anfantais ddifrifol. Mae'r ganran sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd yn cynyddu, ond bydd o hyd rhywun nad ydynt yn medru, neu yn gwrthod, mynd ar-lein, a dylid bod ganddynt yr hawl i gael mynediad hawdd at wasanaethau hanfodol heb orfod talu costau ychwanegol na all y rhan fwyaf ohonynt eu fforddio.

## Mynediad i wasanaethau bancio ac arian parod

Mae mwy ohonom yn rheoli ein harian ar-lein gan ddefnyddio dyfeisiau digidol a thalu am bethau gyda cherdyn plastig, ond mae nifer o bobl hÿn wedi arfer defnyddio dulliau mwy traddodiadol. Mae cyflymu cau canghennau banciau a chael gwared â pheiriannau ATM sydd am ddim i'w defnyddio yn bygwth eu hatal rhag gallu defnyddio gwasanaethau bancio a chael mynediad at arian parod.

## Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf y DU

- arwain ymdrechion byd-eang i greu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hÿn, a fydd yn cynnig fframwaith i arwain ymatebion polisiau ar fynd yn hÿn ar sail hawliau, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn y DU ac yn fyd-eang
  - sicrhau bod gan bob person hÿn fynediad hawdd ac am ddim at wasanaethau bancio ac arian parod, ble bynnag maent yn byw, gan gynnwys ardaloedd gwledig.
- 



Mae llinell gymorth Age Cymru yn wasanaeth ffôn cenedlaethol cyfrinachol ac am ddim, sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth ddiudedd ar gyfer pobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Yn 2018/2019, cefnogodd Partneriaeth Age Cymru 20,000 o bobl hŷn yng Nghymru, a chasglu £6.5 miliwn mewn budd-daliadau heb eu hawlio.

## Arian - crafu byw heddiw ac yfory

- mae 120,000 o bensiynwyr Cymru yn byw mewn tlodi
- un o'r prif resymau pam bod cymaint o bobl hŷn yn byw mewn tlodi yw'r codiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar oed Credyd Pensiwn ac Oed Pensiwn y Wladwriaeth (SPA) i ferched
- mae newidiadau i reolau Credyd Pensiwn ar gyfer 'cyplau oed cymysg' (pensiynwyr sydd â phartner sy'n iau nag Oed Pensiwn y Wladwriaeth) yn golygu gall rhai cyplau sydd â bwlch oed o bum mlynedd neu fwy golli £35,000 erbyn y bydd y partner ieuengaf yn cyrraedd SPA
- amcangyfrifir bod 56,000 o gartrefi yng Nghymru gyda pherson hŷn yn byw ynddynt wedi profi tlodi tanwydd yn 2017-18

### Tlodi pensiynwyr

Mae tlodi pensiynwyr yn dal i fod yn fater difrifol, gyda'r ganran uchaf ymysg pobl hŷn duon a lleiafrifoedd ethnig, merched hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain a rhentwyr hŷn.

### Oed Pensiwn y Wladwriaeth yn Cynyddu

Mae'r cynnydd yn Oed Pensiwn y Wladwriaeth wedi effeithio fwyaf ar y rheiny nad ydynt yn medru parhau i weithio yn ystod eu chwedegau a thu hwnt oherwydd iechyd gwael, anabledd, cyfrifoldebau gofalu, diswyddo neu ddiweithdra.

### Twyll

Mae person hŷn yn profi twyll pob 40 eiliad yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cael effaith ar eu hiechyd, cyllid a llesiant, ac yn chwalu hyder rhai pobl hyd nes iddynt fethu â byw'n annibynnol mwyach.

### Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf y DU

- ddiogelu gwerth Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer pensiynwyr presennol ac yn y dyfodol drwy gynnal y clo trebl a mynediad cynhwysol i fuddion allweddol sy'n helpu i gynnal iechyd a llesiant, fel y taliadau tanwydd dros y gaeaf a thrwyddedau teledu
- rhoi mynediad cynnar i Bensiwn y Wladwriaeth i'r rheiny sydd o fewn tair blynedd i Oed Pensiwn yn Wladwriaeth (SPA) ond nad ydynt yn medru gweithio oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu
- dadwneud newidiadau eleni yn rheolau Credyd Pensiwn sy'n golygu na all cyplau oed cymysg hawlio nes bod y partner ieuengaf yn cyrraedd ei SPA
- gwneud twyll yn flaenoriaeth genedlaethol, gyda'r adnoddau i gyd-fynd ac wedi eu cefnogi gan brosesau gorfodi ac adroddiadau mwy effeithiol.

---

# Unigrwydd - wedi'u hynysu

---

- **adroddodd 220,000 o bobl hŷn yng Nghymru eu bod wedi teimlo'n unig yn hwyrach yn eu hoes**
- **mae 100,000 o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn siarad â dim mwy na thri pherson maent yn eu hadnabod**
- **adroddodd 330,000 o bobl hŷn yng Nghymru y byddai ychydig funudau o sgwrs yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w hwythnos**
- **amcangyfrifir nad yw 80,000 o gartrefi yng Nghymru sydd yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn, yn ei hawlio**

## Trwyddedau teledu am ddim i bobl 75 oed a hŷn

I nifer o bobl hŷn, mae teledu'n llawer iawn mwy pwysig na 'bocs yn y gornel': mae'n ffenest werthfawr i'r byd ac i nifer, y brif ffordd maent yn cael clywed y newyddion, yn cael adloniant ac yn cael cwmni.

Mae'r drwydded teledu am ddim y mae pobl 75 oed a hŷn yn ei derbyn ar hyn o bryd wedi bod ar waith ers cenhedlaeth, ond yn 2015, pasiodd Llywodraeth y DU ar y pryd y cyfrifoldeb i'r BBC, heb gyllid o 2020.

Gan nad oes ganddynt y cyllid i dalu'r trwyddedau am ddim i bob person hŷn dros 75 oed, mae'r BBC wedi penderfynu mai pobl 75 oed neu hŷn sydd ag incwm isel iawn yn unig fydd yn gymwys, a bydd yn rhaid iddynt brofi eu bod yn derbyn Credyd Pensiwn.

Ar hyn o bryd, nid yw dau o bob pum person hŷn sy'n gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn yn ei dderbyn. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran isel o aelwydydd hŷn sy'n cael trwydded am ddim ar hyn o bryd fydd yn parhau i wneud hynny o Fehefin 2020. Os yw'r BBC yn cael caniatâd i barhau gyda'r cynllun, bydd cannoedd o filoedd o'n pensiynwyr tlodaf yn gorfod gwneud toriadau o ran hanfodion eraill, neu beidio â gwario ar hanfodion eraill o gwbl er mwyn medru gwyllo'r teledu.

Mae tâl blynyddol ychwanegol o £154.50 yn sylweddol i nifer o bobl hŷn, yn benodol, y rheiny sy'n byw mewn tlodi neu sydd prin uwchlaw'r llinell tlodi.

Bydd rhaid i nifer o bobl hŷn brynu trwydded deledu am y tro cyntaf ers blynyddoedd, neu byddant yn torri'r gyfraith. Yn y pen draw, gallant wynebu mynd i'r carchar dros beidio â thalu. Ond mae nifer o bobl hŷn yn byw gyda dementia, yn wirioneddol wael a rhai hyd yn oed yn marw, ac fe all cydymffurfio â'r rheolau fod yn anodd os nad oes ganddynt rywun i'w helpu.

## Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf y DU

- weithio gyda'r BBC i sicrhau bod trwydded teledu am ddim yn parhau i fod ar gael ar gyfer pawb sydd yn 75 mlwydd oed ac yn hŷn.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk) or 029 2043 1555**

